# Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon

## CWLS (2) 11-06 (p5)

### Dyddiad y cyfarfod: Dydd Iau, 13 Gorffennaf 2006
### Amser y cyfarfod: 1:30pm - 4:30pm
### Lleoliad y cyfarfod: Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru, Llanarthne

**Adroddiad y Gweinidog Dros Ddiwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon**

## 1. Celfyddydau

### 1.1. Adolygiad Stephens

Cyfarfûm â Phanel Adolygiad Stephens yn Rhuthun ddydd Iau 22 Mehefin pan amlinellais ddadl Llywodraeth y Cynulliad ynghylch Cyngor Celfyddydau Cymru a chyllido'r celfyddydau. Cyflwynaf bapur safbwynt i'r Panel cyn bo hir, ac anfonaf gopi ohono at Gadeirydd y Pwyllgor Diwylliant.

Hyd yn hyn, mae Panel Stephens wedi cynnal 4 cyfarfod cyhoeddus yn y Gogledd Ddwyrain ac yn y Gogledd Orllewin, yng Nghaerdydd ac yn y Cymoedd. Bwriedir cynnal dau gyfarfod arall yn Abertawe ac yn Aberystwyth. Mae'r panel hefyd wedi cyfarfod â Chyngor y Celfyddydau ar wahân.

Mae'r panel wedi gofyn am dystiolaeth gan drawstoriad eang ym mhob un o bapurau cenedlaethol a lleol Cymru. Mae wedi ysgrifennu at bawb sydd wedi derbyn grant gan Gyngor Celfyddydau Cymru yn ystod y ddwy flynedd diwethaf ac at awdurdodau lleol, cyrff iechyd, parciau cenedlaethol a chynrychiolwyr sefydliadau'r sector preifat.

Erbyn diwedd mis Awst, bwriada'r panel i'r holl ddeunydd ysgrifenedig, gan gynnwys tystiolaeth ysgrifenedig a nodiadau cyfarfodydd cyhoeddus gael ei roi ar ei wefan.

### 1.2 Cinio Gwobrau Busnes a'r Celfyddydau

Yr oedd yn bleser mawr gennyf siarad yn y Cinio Gwobrau Busnes a'r Celfyddydau ar 19 Mehefin. Mae'n holl bwysig ein bod yn cydnabod y partneriaethau gwerthfawr sy'n bodoli rhwng y sector busnes a'r celfyddydau. Yr oedd yr esiamplau o ragoriaeth a welwyd yn y digwyddiad yn wirioneddol galonogol a chefais y cyfle i ddiolch yn bersonol i'r busnesau hynny a wnaeth gyfraniad mor bwysig i iechyd diwylliannol Cymru.

### 1.3 Seremoni Gwobrau Diwydiannau Creadigol

Ar 12 Mehefin mynychais y Seremoni Gwobrau Diwydiannau Creadigol i ddewis enillwyr

Gwobrau'r Cynulliad yn yr Ysgol Gelf a Dylunio. Mae'r seremoni yn ffurfio rhan o Wyl Dylunio Caerdydd a drefnir gan Ysgol Gelf a Dylunio Caerdydd yn Athrofa Prifysgol Cymru. Gwnaeth ansawdd a safon uchel y gwaith y bûm yn ei archwilio argraff ddofn arnaf.

Enillwyr Gwobrau'r Cynulliad oedd Antigoni Pantazi a greodd gerfluniaeth pen Ianws a Kate Elisabeth Bassett a greodd baentiad ardderchog o olygfa o stryd mewn ardal sy'n cael ei hadfywio. Rhoddir y gerfluniaeth yn Swyddfa'r Prif Weinidog a byddaf yn arddangos y paentiad yn fy swyddfa i am flwyddyn.

## 2. Amgueddfeydd a Llyfrgelloedd

### 2.1 Penodiadau Ymddiriedolwyr Cyngor yn Amgueddfa Cymru – National Museum Wales

Penodwyd Elisabeth Elias a Gareth Williams yn Ymddiriedolwyr Cyngor yn Amgueddfa Cymru – National Museum Wales am gyfnod o 4 blynedd o 1 Mehefin 2006 ymlaen. Edrychaf ymlaen at y cyfraniadau a wna'r ddau i waith yr Amgueddfa Genedlaethol.

Cynhaliwyd y weithdrefn benodi yn unol â Chod Ymarfer y Comisiynydd dros Benodiadau Cyhoeddus a Chod Ymarfer y Cynulliad ar Benodiadau Gweinidogol i Gyrff Cyhoeddus.

### 2.2 'Trafod y Weledigaeth'

Agorais y ddadl am y celfyddydau gweledol yng Nghymru dan y teitl "Amgueddfa'r Dyfodol: Ffurfiau'r Dyfodol?" a gynhaliwyd yn Amgueddfa Cymru Caerdydd ar 29 Mehefin. Bu i'r panelwyr gwadd Edmund de Waal, Philippa Glanville, Tim Davies, William Feaver a Dominic Williams gyfrannu at drafodaeth addysgiadol a diddorol iawn.

Yr oedd y digwyddiad yn un o gyfres o 'Ddyddiau Gweledigaeth' a gynhaliwyd yn Amgueddfa Cymru ym Mehefin. Cyflwynodd yr Amgueddfa ei Gweledigaeth ar gyfer y 10 mlynedd nesaf gerbron cynulleidfa wadd a chynulleidfa gyhoeddus gyfrannog; trafodwyd materion a oedd yn ymwneud â thair prif elfen guradurol gwaith yr Amgueddfa: hanes cenedlaethol; celf a materion gwyddonol/byd-eang.

### 2.3 CyMAL: Amgueddfeydd, Archifau a Llyfrgelloedd Cymru: Amgueddfa Pontypwl

Ar 12 Mehefin agorais yr Arddangosfa o Nwyddau o Japan yn Amgueddfa Pontypwl. Cyfrannodd Llywodraeth Cynulliad Cymru £19,000 at yr arddangosfa, drwy gyfrwng cynllun grant Cyfoeth Cymru Gyfan a weinyddir gan CyMAL. Mae'r eitemau ardderchog sydd ar fenthyg gan Amgueddfa Cymru - National Museum Wales yn brawf o fanteision y cynllun wrth gyfuno'r casgliad lleol unigryw o Nwyddau o Japan ym Mhontypwl gydag eitemau o'r casgliad cenedlaethol. Mae hon yn arddangosfa barhaol a gaiff ei haddasu yn achlysurol er mwyn caniatáu i wahanol eitemau o'r ddau gasgliad gael eu harddangos.

# 3. Chwaraeon

## 3.1 Cynllun Gweithredu Dringo'n Uwch

Yr wyf yn bwriadu lansio Dringo'n Uwch – Y Camau Nesaf yng nghyfleusterau cymunedol Parc Lansbury yng Nghaerffili ar 26 Gorffennaf. Bydd y ddogfen hon yn dangos yr holl waith a'r buddsoddiad a welwyd eisoes i gyfrannu at dargedau gweithgarwch corfforol a chwaraeon y Llywodraeth. Gallaf yn awr adrodd, fel canlyniad i'r gweithredu cyn belled, y bu cynnydd sylweddol yn lefelau gweithgarwch corfforol oedolion ers lansio Dringo'n Uwch i ddechrau i ymgynghori arni.

Mae arolwg y mae Cyngor Chwaraeon Cymru ar fin ei ryddhau yn tynnu sylw at gynnydd sylweddol yn nifer yr oedolion sy'n gwneud gweithgarwch corfforol am 30 munud 5 gwaith yr wythnos ers yr arolwg diwethaf yn 2002/2003. Cyhoeddir yr adroddiad ar ôl lansio Dringo'n Uwch – Y Camau Nesaf) a byddaf yn sicrhau bod aelodau'r pwyllgor yn cael copi ohono.

Bydd Y Camau Nesaf yn dwyn ynghyd yr holl gynlluniau cyfredol sy'n cyfrannu at Dringo'n Uwch a bydd yn dangos sut y bwriadaf fuddsoddi'r £7.8m ychwanegol y flwyddyn nesaf, sef swm a gymeradwywyd mewn cylchoedd cynllunio cyllidebau blaenorol. Bydd dogfen Y Camau Nesaf hefyd yn tynnu sylw at y gwaith ychwanegol y mae'n rhaid edrych arno i'r dyfodol i fwrw Dringo'n Uwch yn ei blaen.

## 3.2 Wythnos Genedlaethol y Beic (17-25 Mehefin 2006)

Cefnogais Wythnos Genedlaethol y Beic drwy gymryd rhan mewn taith feiciau, gyda grwp a oedd yn cynnwys Sustrans, i Gastell Coch ar 20 Mehefin. Cefais gyfle i hybu'r llwybrau beiciau y mae Cadw wedi eu gosod yn nifer o'i safleoedd henebion i annog i ymwelwyr feicio i'w atyniadau.

Gosodwyd y llwybrau beiciau yn yr holl safleoedd henebion sydd gerllaw'r Rhwydwaith Beiciau Cenedlaethol sy'n ymestyn dros 1,000 o filltiroedd ac a gydlynir gan yr elusen trafnidiaeth gynaliadwy, Sustrans.

Oherwydd mai yn y DU y mae rhai o'r lefelau tagfeydd gwaethaf yn Ewrop, yr wyf yn ystyried y mater o deithio cynaliadwy yn ddifrifol yn ogystal â'r angen i'r Cynulliad ddal i feithrin perthynas glos gyda sefydliadau sy'n rhanddeiliaid, megis Sustrans. Mae beicio yn dda i wella iechyd a ffitrwydd ac mae ganddo synergedd agos gyda nodau Dringo'n Uwch.

## 3.3 Cynhadledd UCS / BUSA

Ar 28 Mehefin agorodd y Prif Weinidog gyd-gynhadledd y Brifysgol a'r Coleg Chwaraeon (UCS) a Chymdeithas Chwaraeon Prifysgolion Prydain (BUSA) yn Athrofa Prifysgol Cymru Caerdydd (UWIC). Cymerodd y Prif Weinidog ran hefyd mewn digwyddiad i'r wasg yn y gynhadledd gyda'r Arglwydd Coe, Cadeirydd Pwyllgor Trefnu Llundain ar gyfer Gemau Olympaidd 2012. Anerchodd yr Arglwydd Coe y cynadleddwyr ynghylch y cyfleoedd i golegau a phrifysgolion yng Nghymru ymwneud â Gemau 2012, a'r hyn a adewir ar eu hôl.

### 3.4 Canolfan Ffitrwydd Coleg Glannau Dyfrdwy

Ar 30 Mehefin agorais ganolfan ffitrwydd newydd, £1.5 miliwn Coleg Glannau Dyfrdwy yn swyddogol. Mae’r ganolfan yn cynnwys ystafell ffitrwydd 100 darn, stiwdio sbin, stiwdio dawns a stiwdio sesiynau ymarfer cyflym ac mae ar agor i’r myfyrwyr, y staff ac aelodau’r gymuned leol. Deilliodd y ganolfan o bartneriaeth gyhoeddus/breifat i fodloni anghenion gweithgarwch corfforol a chwaraeon. Mae’r angen am ail-gyflunio ac am fuddsoddiadau arloesol yn ein stoc hamdden yn cael ei amlygu yn Dringo'n Uwch a chroesawaf y cam hwn gan y coleg.

### 3.5 Cyfarfod Cynllun Hyfforddi i Gymru

Cyfarfûm gyda’r Gweinidog dros Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau ar 11 Gorffennaf i drafod y trefniadau cyd-weithio ar draws ein portffolios. Yr wyf eisiau sicrhau bod y Cynllun Hyfforddi i Gymru a’r Rhaglen Chwaraeon i Ysgolion Uwchradd y byddaf yn eu lansio’r hydref hwn yn cael yr effaith fwyaf posibl. Byddaf yn rhoi’r diweddaraf i’r aelodau am y trafodaethau yn y cyfarfod Pwyllgor ar 13 Gorffennaf.

### 3.6 Cyhoeddusrwydd i Gronfa Dreftadaeth Cwpan Ryder

Y bore hwn cyhoeddais y ddau brosiect cymeradwy cyntaf dan Gronfa Dreftadaeth Cwpan Ryder mewn digwyddiad yn Abaty Castell-nedd. Mae’r ddau brosiect, a leolir yng Nghastell-nedd a Gwynedd, yn cefnogi datblygu’r gêm ymysg y bobl a dyma wrth gwrs yw diben Cronfa Dreftadaeth Cwpan Ryder.

## 4. Amgylchedd Hanesyddol

### 4.1 Plas Mawr, Conwy

Ar 6 Gorffennaf yr oedd yn bleser mawr gennyf agor gerddi Tuduraidd hanesyddol ym mhlasty trefol Plas Mawr yng Nghonwy. Bu’r gerddi ar gau am nifer o flynyddoedd, nes i Cadw, gwasanaeth amgylchedd hanesyddol Llywodraeth Cynulliad Cymru gynnal prosiect hirdymor i’w hadfer i’w gogoniant gwreiddiol fel ar ddiwedd y 1500au.

Fel rhan o’r gwaith cadwraeth sylweddol cloddiwyd a chynhaliwyd nifer o’r nodweddion gwreiddiol megis y fynedfa i’r ardd; cynhaliwyd waliau uchel gwreiddiol yr ardd; fe’i rhannwyd yn ddau deras, y teras uchaf a’r teras isaf; a’r draeniau cerrig gwreiddiol sy’n dal i weithio yn yr ardd. Mae ffynonellau dogfennol ynghyd â phaentiad o Gonwy sy’n dyddio o oddeutu 1600 yn dangos bod y masnachwr Robert Wynn wedi gosod gardd gaerog fechan o amgylch ochr ogleddol ei dy newydd yn y 1580au. Yr oedd digon o’r safle gwreiddiol hwn wedi goroesi er mwyn i Cadw ail-greu gardd gyfoes i gyd-fynd â’r plasty trefol ysblennydd hwn o oes Elisabeth.

### 4.2 Hanfod Hanes : i’r Gymru fydd – History Matters : pass it on

Mae Cadw, mewn partneriaeth â’r Ymddiriedolaeth Genedlaethol yng Nghymru ac Amgueddfa

Cymru – National Museum Wales, yn un o'r partneriaid craidd yn y cynllun Hanfod Hanes: i'r Gymru fydd - History Matters: pass it on a lansiwyd ar 6 Gorffennaf.

Mae hwn yn brosiect cyhoeddus i gynyddu ymwybyddiaeth a chefnogaeth i etifeddiaeth Cymru ac fe'i cynhelir rhwng Gorffennaf a Thachwedd 2006. Bydd yn rhoi cyfleoedd i ddathlu treftadaeth a diwylliant Cymru a chynyddu ein dealltwriaeth o'r hyn y mae pobl yn ei werthfawrogi am eu hanes.

Mae nifer o ddigwyddiadau wedi eu cynllunio ar gyfer yr haf i hybu'r cynllun, ac mae Cadw yn bwriadu canolbwyntio ei ymdrechion ar amrywiol ddigwyddiadau a gweithgareddau yn ystod hanner tymor mis Hydref. Hwn yw'r tro cyntaf i Cadw fod wedi trefnu digwyddiadau sy'n canolbwyntio'n arbennig ar deuluoedd ar yr adeg hon o'r flwyddyn er mwyn manteisio ar y gwyliau ysgol. Bwriedir cynnal y digwyddiadau yn nifer o safleoedd Cadw a chefnogir y rhain gan bosteri, cardiau post a bathodynnau arbennig i gefnogi'r cynllun. I gael rhagor o wybodaeth am y cynllun, ymwelwch â'r wefan:-

www.hanfodhanes.org.uk neu www.historymatterswales.org.uk

### 4.3 4ydd Gorffennaf – Cynnig Doler

Yn y cyfarfod Pwyllgor ar 15 Mehefin, addewais ddarparu manylion pellach fy nghynllun i hybu'r henebion sydd yng ngofal Llywodraeth y Cynulliad ymysg twristiaid Americanaidd sy'n ymweld â Chymru. Bydd pob safle a reolir yn gyfan gwbl gan wasanaeth amgylchedd hanesyddol Llywodraeth y Cynulliad, Cadw, yn rhan o'r cynllun a byddant yn derbyn Doler yr UD yn lle'r tâl mynediad arferol ar 4ydd Gorffennaf.

Bydd 22 o safleoedd ledled Cymru yn cyfranogi, gan gynnwys rhai o'n safleoedd amlycaf o Gastell Conwy yn y Gogledd i Gastell Coch yn y De.

## 5. Yr Iaith Gymraeg

### 5.1 Adroddiad Blynyddol Iaith Pawb a'r Cynllun Iaith Gymraeg 2005-06

Bydd yr aelodau yn ymwybodol fy mod wedi cyflwyno Adroddiad Blynyddol Iaith Pawb a'r Cynllun Iaith Gymraeg ar gyfer 2005-06 yn y ddadl yn y Cyfarfod Llawn ddydd Mawrth. Dengys yr adroddiad ein bod yn dal i sicrhau cynnydd cadarnhaol yn darparu gwasanaethau dwyieithog i'r cyhoedd, fel y nodir yn ein Cynllun Iaith Gymraeg, ac yn erbyn y 60 a mwy o brosiectau sy'n rhan o Iaith Pawb.

Dengys yr adroddiad bod prosiectau Iaith Pawb yn gwneud gwahaniaeth i fywydau siaradwyr Cymraeg, ac yn helpu i gynnal cymunedau Cymraeg. Er enghraifft, ar 29 Mehefin ymwelais â meithrinfa ddwyieithog Cae'r Ffair yng Ngorslas, Sir Gaerfyrddin. Sefydlwyd y feithrinfa fel menter busnes gan Gymraes leol, Sharon James; cafodd gefnogaeth gan Potentia, y cynllun cymorth cyn-sefydlu i Gymry dan ofal Menter a Busnes. Mae Cae'r Ffair yn awr yn cyflogi 11 o staff a chofrestrwyd dros 40 o blant yno - mae'n llwyddiant i'r economi leol, ac yn cynyddu'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg i blant dan oed ysgol.

### 5.2 Gwobrau Dylunio Dwyieithog Bwrdd yr Iaith Gymraeg

Yr oedd yn bleser mawr gennyf gyflwyno Gwobr Dylunydd Dwyieithog y Flwyddyn yn seremoni Gwobrau Dylunio Dwyieithog Bwrdd yr Iaith Gymraeg yn Amgueddfa Cymru, Caerdydd ar 13 Mehefin. Cafwyd 11 categori eleni gan gynnwys categori newydd i gydnabod pecynnu amgylchedd-garedig.

Yr enillydd cyffredinol oedd Glass Hammer am eu gwaith dylunio i ddarparu gwaith brandio a hysbysebu ar gyfer gwobr "Llyfr y Flwyddyn 2006" Academi.

Hon oedd y chweched seremoni Gwobrau Dylunio Dwyieithog sydd â’r nod o hybu a chynyddu proffil dylunio dwyieithog a chydnabod y gorau yn y maes arbenigedd hwn. Yr oedd yn galonogol iawn i mi bod oddeutu mil o gwmnïau wedi cystadlu eleni. Dengys hyn bod dylunwyr, sefydliadau a chwmnïau ledled Cymru, a’r tu hwnt, yn cymryd dylunio dwyieithog o ddifrif.

### 5.3 Cynhadledd CYDAG

Cynhaliodd CYDAG (Cymdeithas Ysgolion Dros Addysg Gymraeg) ei chynhadledd flynyddol yn Aberystwyth ar 15/16 Gorffennaf. Nod y Gymdeithas yw hybu a datblygu pob agwedd ar addysg ddwyieithog yn y sector cynradd a’r sector uwchradd. Anerchais y gynhadledd ynghylch ymrwymiad Llywodraeth y Cynulliad tuag at y Gymraeg a’r pwysigrwydd a roddwn ar addysg cyfrwng Cymraeg.

### 5.4. Yr Eisteddfod Genedlaethol

Cefais un o’m cyfarfodydd diweddaru rheolaidd gyda’r Eisteddfod Genedlaethol yr wythnos diwethaf. Mae’n debygol bod aelodau’r Pwyllgor yn gwybod i’r Eisteddfod gyhoeddi'n ddiweddar elw o £220K yn Eisteddfod Eryri y llynedd. Yr wyf yn falch o adrodd bod y trefniadau ar gyfer digwyddiad eleni yn Abertawe hefyd yn mynd rhagddynt yn dda iawn. Mae’r pwyllgorau apêl lleol wedi gwneud yn eithriadol o dda’n codi arian ac yn trefnu oddeutu 700 o ddigwyddiadau yng nghyswllt hynny.

Mae’r Eisteddfod wedi ymateb yn dda i’r targedau a osodais iddi drwy gyfrwng Bwrdd yr Iaith Gymraeg fel rhan o'r arian ychwanegol y mae'r Eisteddfod wedi'i dderbyn yn y blynyddoedd diwethaf. Yn unol â’r targedau hynny, mae’r Eisteddfod wedi bod yn ymgysylltu â chymunedau lleol a'r rhai sy'n dysgu'r Gymraeg ac mae'n cymryd camau pellach i gynyddu'r gweithgareddau ar y Maes.

## 6. Cyhoeddi

### 6.1 Gwerthiant Llyfrau Cymry sy’n Ysgrifennu yn Saesneg / Siop Lyfrau Newydd Borders yn Llantrisant

Yn ystod cyfarfod y Pwyllgor Diwylliant a gynhaliwyd ar 15 Mehefin, addewais ddarparu manylion ffigurau gwerthiant ar gyfer Cymry sy’n ysgrifennu yn Saesneg.

Mae'n ddyddiau cynnar o hyd ar gyfer darparu ffigurau manwl. Fodd bynnag, gallaf adrodd bod Cyngor Llyfrau Cymru yn cyrraedd ei darged o gynnydd cyfartalog blynyddol o 5% mewn gwerthiannau cyffredinol o'i ganolfannau dosbarthu. Mae hefyd yn braf nodi y ceir eisoes dystiolaeth o werthiannau cynyddol mewn meysydd a elwodd o gyllid ychwanegol o ganlyniad i adolygiad y Pwyllgor o Gymry sy'n ysgrifennu yn Saesneg. Er enghraifft, mae gwerthiannau ffuglen i oedolion o Ganolfan ddosbarthu'r Cyngor Llyfrau wedi cynyddu 24% dros y 2 flynedd diwethaf. Mae gwerthiannau llyfrau o Gymru yng Ngwyl y Gelli wedi cynyddu 91% dros y ddwy flynedd ddiwethaf.

Ar 20 Mehefin ymwelais â siop newydd Borders yn Llantrisant; yr oedd yn agor i'r cyhoedd yn ddiweddarach yr wythnos honno. Bu Cyngor Llyfrau Cymru yn gweithio'n agos gyda'r siop i sicrhau bod dewis cynhwysfawr o lyfrau o Gymru yn Saesneg a Chymraeg yn cael eu stocio yn y siop. Gan adeiladu ar lwyddiant eu siop yn Fforest-fach yn Abertawe sydd ag adran Gymraeg gref, mae'r siop fawr newydd yn Llantrisant wedi neilltuo hyd yn oed rhagor o le i lyfrau Cymraeg yn y ddwy iaith. Mae gan Borders gynlluniau i agor siop newydd yng Nghaerdydd erbyn y Nadolig.

## 7. Strategaeth Ddiwylliant, Rhaglen Newid a Diwygio'r Cyrff Cyhoeddus a Noddir Gan y Cynulliad

### 7.1 Penodi'r Dyfarnydd

Penodir y Dyfarnydd drwy ddefnyddio'r pwerau ym Mesur Llywodraeth Cymru sy'n mynd drwy San Steffan ar hyn o bryd. Bydd hyn yn golygu ceisio cymhwysedd deddfwriaethol drwy'r weithdrefn Gorchymyn yn y Cyfrin Gyngor y darperir ar ei chyfer yn y Mesur ac yna deddfu ar wahân drwy Fesur gan y Cynulliad. Yn dilyn hyn, byddai'r penodiad yn cael ei wneud drwy gystadleuaeth deg ac agored.

Yng nghyfarfod y Pwyllgor ar 24 Mai, dywedais y byddwn yn rhoi gwybodaeth i aelodau am yr amserlenni sydd ynghlwm wrth benodi'r Dyfarnydd. Ffordd newydd o greu deddfwriaeth fydd hon felly mae'n anodd gwybod yn union faint o amser y bydd ei angen er mwyn cwblhau'r gweithdrefnau uchod. Fodd bynnag, bydd sefydlu'r Dyfarnydd yn flaenoriaeth ddeddfu.

### 7.2. Datganiad Uno Bwrdd yr Iaith Gymraeg

Rhoddais ddatganiad llafar ddydd Mawrth diwethaf ac atebais gwestiwn llafar yng nghyfarfod llawn dydd Mercher ynghylch manylion uno Bwrdd yr Iaith Gymraeg. Ar ôl ymgynghori â'r cyhoedd, penderfynwyd yr unir y Bwrdd ar yr un pryd ag y sefydlir y Dyfarnydd ar sail statudol. Bydd hyn yn golygu y bydd y newidiadau'n digwydd mewn un cam yn hytrach nag mewn dau. Ni fu unrhyw newid i bolisi'r Llywodraeth – yr ydym yn benderfynol o weld y Gymraeg yn tyfu ac o wella atebolrwydd democrataidd.

## 8. Cyfarfodydd Ac Ymweliadau Gweinidogol Eraill

21 Mehefin – Cyfarfod chwe-misol gyda Bwrdd yr Iaith Gymraeg

5 Gorffennaf – Cyfarfod chwe-misol gydag Eisteddfod Genedlaethol Cymru, y Llyfrgell Genedlaethol a'r Amgueddfa Genedlaethol

10 Gorffennaf – Cyfarfod gyda'r Urdd

## 9. Cyfarfodydd a Digwyddiadau Maes o Law

17/18 Gorffennaf - Taith DU Sioe Pen-ffordd y Gemau Olympaidd - Caerdydd / Gogledd Cymru

18-19 Gorffennaf – Cabinet Chwaraeon Gweinidogol y DU (Caeredin)

31 Gorffennaf – Lansio llwybr beiciau mynydd Plas Menai

5-6 Awst – Mynychu'r Eisteddfod, Abertawe

17 Medi – Cwpan Ryder Iau Cymru (derbyniad 19 Medi)

20-21 Medi – Cwpan Ryder, Iwerddon